Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

# Gyda'n gilydd at y miliwn

# Together towards the million

## Cynllun Strategol Dysgu Cymraeg

## Learn Welsh Strategic Plan

**2026-2027**

**"...Mae cyfraniad siaradwyr sy'n dysgu'r Gymraeg y tu allan i'r cartref yn gwbl allweddol i lwyddiant ein strategaeth."**

"...The contribution of speakers who acquire Welsh outside the home is vital to the success of our strategy."

Cymraeg 2050:
Miliwn o siaradwyr A million Welsh speakers

Dysgu
Learn

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

## 1. Cyflwyniad

**Mwy o ddysgwyr nag erioed o'r blaen**
Mae mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn dysgu Cymraeg, yn ôl data diweddara'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cwblhaodd 20,445 o unigolion gyrsiau'r Ganolfan yn ystod 2024-2025 – y nifer uchaf erioed, a chynnydd o 61% ers y cyhoeddiad data cyntaf yn 2017-2018.

**Ymestyn gwasanaethau**
Mae'r twf yn adlewyrchu dull strategol y Ganolfan o ddarparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg, ers iddi gael ei sefydlu yn 2016 i ddarparu arweiniad strategol i'r sector Dysgu Cymraeg i oedolion.

Ers hynny, mae'r Ganolfan wedi teilwra rhaglenni hyblyg ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, ochr yn ochr â chyrsiau cymunedol helaeth, sy'n creu mwy o gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

Mae wedi gweithio gyda dros 2,000 o gyflogwyr yn sgil ei rhaglenni Dysgu Cymraeg ar gyfer gweithluoedd, ac wedi sefydlu cynlluniau sylweddol ar gyfer sectorau allweddol, gan gynnwys Iechyd a Gofal, y Gweithlu Addysg (Anstatudol, Statudol a Thrydyddol) a'r byd Chwaraeon.

Datblygwyd cynlluniau Dysgu Cymraeg ar gyfer pobl 16-25 oed, hefyd, ac mae cynnydd sylweddol yn niferoedd y garfan hon sy'n dysgu Cymraeg - cwblhaodd 4,110 gyrsiau yn 2024-2025 o'i gymharu â 705 yn 2017-2018.

Mae Estyn yn arolygu gwaith y Ganolfan a'r sector Dysgu Cymraeg, ac mae wedi canmol dull strategol ac effeithiol y Ganolfan o weithredu.  Mae wedi nodi argymhellion clir, sydd wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws y sector Dysgu Cymraeg

**Cwricwlwm Dysgu Cymraeg**
Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg y Ganolfan wedi'u seilio ar gwricwlwm cenedlaethol, gan ddarparu llwybr clir i ddysgwyr ddefnyddio a mwynhau'r iaith.  Mae'r cwrciwlwm yn cyd-fynd â lefelau dysgu Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR).  Mae ystod o adnoddau Dysgu ac Addysgu wedi'u llunio i gefnogi dysgwyr ar hyd eu taith iaith.

**Partneriaid**
Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda mwy a mwy o bartneriaid, sy'n sicrhau cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr a siaradwyr newydd ddefnyddio a chlywed y Gymraeg.  Mae partneriaid y Ganolfan yn cynnwys S4C, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Mentrau Iaith Cymru, a Chomisiynydd y Gymraeg, ymysg nifer o rai eraill.

## 2. Cynllun Strategol 2026-27

Mae’r Cynllun Strategol yma, carreg filltir hollbwysig yn hanes y Ganolfan, yn cyfleu ei blwyddyn olaf weithredol, cyn i’w dyletswyddau drosglwyddo i gorff statudol newydd, fydd yn cynnal ac yn ehangu ar ei gwaith ac yn adeiladu ar ei llwyddiannau.

Mae tystiolaeth gadarn bod gweledigaeth cynllun strategol blaenorol y Ganolfan ar gyfer 2024-2026, sef creu siaradwyr Cymraeg sy’n mwynhau defnyddio’r iaith, trwy ddarparu strategaeth a gwasanaethau Dysgu Cymraeg cenedlaethol, wedi’i chyflawni.

Cyhoeddwyd y cynllun hwnnw ar droad newidiadau sylweddol i’r sector addysg statudol, wrth i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar Fil y Gymraeg ac Addysg, oedd yn cynnwys sefydlu corff statudol newydd fyddai’n gyfrifol am gefnogi pobl o bob oed i ddysgu Cymraeg.

Erbyn hyn, mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) wedi ei sefydlu ac ynddi mae cadarnhad am ddyfodol y sector Dysgu Cymraeg. Fel rhan o’r Ddeddf, ar 1 Awst 2027 bydd corff statudol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn cael ei sefydlu. Nod yr Athrofa fydd helpu pawb yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a dysgu a mwynhau’r iaith gydol eu bywydau.

Bydd y Ganolfan yn dod i ben, a’i dyletswyddau yn trosglwyddo i’r Athrofa, fydd yn cynnal ac yn ehangu ar y gwaith, gan adeiladu ar y sylfaen lwyddiannus sydd wedi’i gosod gan y Ganolfan.

## 3. Gweledigaeth

Creu siaradwyr Cymraeg sy’n mwynhau defnyddio’r iaith, trwy ddarparu strategaeth a gwasanaethau Dysgu Cymraeg cenedlaethol yw prif nod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn dal ati i gyfrannu’n weithredol at weledigaeth Cymraeg 2050 drwy gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus a chefnogi defnydd o’r Gymraeg yn y gymuned, yn y gweithle ac ym mywyd cyhoeddus Cymru.

Yn ychwanegol, bydd yn cydweithio â’r Llywodraeth a’n partneriaid eraill i fraenaru’r tir ar gyfer sefydlu’r Athrofa newydd, er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i’r corff newydd.

## 4. Amcanion Strategol

Bydd y Ganolfan yn cynllunio'n strategol er mwyn:

- **Denu** mwy o bobl i ddysgu'r iaith;
- Darparu cyfleoedd **dysgu** amrywiol ac o ansawdd;
- Cefnogi **defnydd** o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd ac mewn gwahanol gyd-destunau.

### 4.1 Cynllunio strategol a pharatoi at y dyfodol

Mae'r Ganolfan yn cynllunio'n strategol ac yn ieithyddol ar gyfer darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg cenedlaethol i gynulleidfaoedd amrywiol. Yn dilyn degawd o weithredu llwyddiannus, sydd wedi arwain at dwf sylweddol yn y gweithgaredd Dysgu Cymraeg, mae'r Ganolfan yn paratoi at bennod newydd.

Ym mis Gorffennaf (Awst?) 2027 bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn dirwyn i ben a'r cytundeb rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Llywodraeth Cymru i gartrefu'r Ganolfan yn diweddu hefyd.

Bydd gweithgareddau'r Ganolfan yn trosglwyddo i gorff statudol newydd sy'n cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn sgil Deddf y Gymraeg ac Addysg. Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol yw'r corff newydd, a'i nod fydd hwyluso a chefnogi gweithgareddau Dysgu Cymraeg gydol oes. Bydd yr Athrofa yn cynnal ac yn ehangu ar waith y Ganolfan, gan adeiladu ar y sylfaen lwyddiannus sydd wedi'i gosod.

Yn ystod cyfnod olaf y Ganolfan, felly, byddwn yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i sicrhau bod y trefniadau trosglwyddo yn llyfn ac yn effeithlon.

Bydd y Ganolfan yn rhannu ei harbenigedd dysgu a chaffael iaith wrth i Ddeddf y Gymraeg ac Addysg gael ei gweithredu, gan weithio'n agos â Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill.

Bydd trefniadau rheoli a llywodraethu cadarn yn parhau hyd at ddiwedd cyfnod y Ganolfan, a hynny er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cael ei arwain yn effeithiol a bod gweithdrefnau yn eu lle sy'n cefnogi gwasanaeth o ansawdd.

Byddwn yn cyflawni'r amcan strategol hwn drwy'r camau gweithredu canlynol:

- Cynllunio'r gwasanaeth Dysgu Cymraeg yn genedlaethol. Casglu tystiolaeth ar effeithiolrwydd a thraweffeithiau ein darpariaeth a thrwy hyn, datblygu dealltwriaeth o gyfraniad ein gwasanaethau tuag at nodau hirdymor Cymraeg 2050 a deddfwriaethau perthnasol eraill.

- Gweithredu Rhaglen Drosiannol i sicrhau bod y Ganolfan yn rhannu ei harbenigedd dysgu a chaffael iaith er mwyn cefnogi cyfnod cychwynnol gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg.

- Cynnull grwpiau arbenigol ar lefel genedlaethol yn gyson, gan gynnwys y Grŵp Ansawdd, er mwyn ymgynghori a datblygu rhaglenni gwaith.

- Sicrhau bod llais y sector, gan gynnwys y dysgwyr a'r gweithlu, yn dylanwadu ar y blaenoriaethau gwaith.

- Parhau i adnabod a rhannu enghreifftiau o ragoriaeth ac arferion da drwy hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.

- Cydweithio ag Estyn wrth iddynt arolygu'r sector yn unol â'r dull rheoleiddio Dysgu Cymraeg i oedolion. Ymgysylltu â'r drefn newydd o arolygu sy'n cynnwys arolygiadau a themâu.

- Datblygu trefn gyllido a monitro cynnydd yn erbyn targedau, allbynnau a deilliannau cenedlaethol gan sicrhau y gwerth gorau am arian. Fel rhan o drefniadau monitro cynnydd, adrodd ar berfformiad yn erbyn dangosyddion a deilliannau fesul blwyddyn.

- Cynnal strwythur llywodraethiant cadarn, gweledol ac atebol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn genedlaethol ac yn cefnogi cyfnod olaf y Ganolfan a'r paratoadau i drosglwyddo ei gwaith i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n adrodd ar wariant a chyrhaeddiad ynghyd ag adroddiad arbennig sy'n crynhoi degawd o weithgaredd y Ganolfan.

## 4.2 Denu – agor drysau i ddysgu'r Gymraeg

Bydd y Ganolfan yn parhau i ddenu pobl i ddysgu Cymraeg, ac yn sicrhau cyfle i bawb, lle bynnag maen nhw'n byw, a beth bynnag yw eu cefndir neu ethnigrwydd, i ddysgu'r iaith.

Trwy ein gweithgareddau a'n gweithredu gwrth-hiliol, byddwn yn cyfleu'r neges bod modd i bawb ddysgu'r Gymraeg, a bod croeso cynnes i bawb, gan gynllunio ar sail sylwadau ein grŵp cynghori gwrth hiliol. Byddwn yn parhau i sicrhau darpariaeth hyblyg o ran amser, dwyster, dulliau a chyflymder dysgu, ac i addasu ein darpariaeth i gynulleidfaoedd newydd, amrywiol.

Mae creu'r amodau cywir a meithrin brwdfrydedd ar gyfer dysgu'r iaith yn dibynnu ar gydweithio ar draws Cymru a bydd y Ganolfan yn parhau i adeiladu partneriaethau. Byddwn yn pwysleisio bod croeso'n ôl i'r rhai sydd wedi colli hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn annog pawb i ddefnyddio'r Gymraeg sydd gyda nhw yn eu bywydau pob dydd.

Byddwn yn cyflawni'r amcan strategol hwn drwy'r camau gweithredu canlynol:

Deallusrwydd o'r Sector

- Fel Cyhoeddwr Ystadegau Swyddogol, sicrhau bod data cywir am y sector yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol fel sail i waith cynllunio ieithyddol.
- Cynnal rhaglen o gasglu barn dysgwyr a'r gweithlu yn gyson er mwyn arwain at raglen o welliant.
- Sefydlu Pwyllgor Ymchwil Dysgu ac Addysgu newydd fydd yn arwain ar Strategaeth Ymchwil gyda'r nod o sefydlu'r Ganolfan fel un pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymchwil dysgu ac addysgu.

Marchnata a Chyfathrebu

- Sicrhau Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu, sy'n berthnasol ac yn addas.
- Gweithredu cynlluniau marchnata cenedlaethol a lleol sy'n hyrwyddo ein cyrsiau ac yn cefnogi dilyniant dysgwyr.

Partneriaethau ac Ymgysylltu

- Cynnal ein partneriaethau strategol ag amrywiaeth o sefydliadau, gan roi arweiniad ieithyddol, o safbwynt arbenigedd dysgu a chaffael iaith, a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr a siaradwyr newydd ymarfer a defnyddio'r Gymraeg.

## 4.3 Dysgu – darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg rhagorol i bawb

Mae'r Ganolfan yn parhau'n uchelgeisiol o ran y ddarpariaeth a gynigir.

Datblygwyd cwricwlwm arloesol yn seiliedig ar y CEFR (fframwaith Ewrop i ddisgrifio sgiliau iaith) a'r nod yw cynnig profiad dysgu ardderchog sy'n cyfoethogi bywydau ein dysgwyr, gan gryfhau eu sgiliau a chodi eu hyder.

'Dyn ni'n ymrwymo i gynnig cyfleoedd ar bob lefel, sy'n addas i bawb ac sy'n hyblyg ac yn hygyrch. 'Dyn ni am i bobl fedru dysgu yn eu cymunedau, a'u gweithleoedd, lle bydd cyrsiau ar gael iddynt sy'n berthnasol i'w swyddi ac sydd wedi'u teilwra ar gyfer eu sector. Byddwn hefyd yn parhau i weithredu fel arbenigwr dysgu a chaffael iaith ar sail y CEFR ac yn darparu cyngor ac arbenigedd yn y maes yma.

Mae cynnig cyfleoedd i deuluoedd i ddysgu'r Gymraeg, gan gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn cartrefi, hefyd yn hollbwysig a byddwn yn parhau i gefnogi rhieni a gofalwyr mewn ysgolion a thrwy ein cyrsiau yn y gymuned.

Mae cynnydd sylweddol yn niferoedd y bobl ifanc sydd eisiau dysgu Cymraeg, a byddwn yn dal ati i gynnig cyfleoedd deniadol ac apelgar iddynt i ddysgu Cymraeg a magu hyder i'w defnyddio.

Yn ogystal a buddsoddi mewn rhaglen uchelgeisiol sy'n rhoi dewisiadau dysgu eang, byddwn yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau, gan gydweithio ag ystod eang o bartneriaid.

Mae sicrhau profiadau dysgu rhagorol yn ddibynnol ar fuddsoddi yn y gweithlu Dysgu Cymraeg, gan godi proffil y sector a chynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol i diwtoriaid ac ymarferwyr eraill

Byddwn yn cyflawni'r amcan strategol hwn drwy'r camau gweithredu canlynol:

- Datblygu'r ddarpariaeth Dysgu Cymraeg, gan gynnig cyfleoedd amrywiol i ystod o gynulleidfaoedd i ddysgu Cymraeg gan gynnwys oedolion yn y Gymuned, gweithluoedd, poibl ifanc a theuluoedd.

- Cwblhau'r cylch o olygu ac adolygu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm Dysgu Cymraeg, sydd wedi'i alinio â'r CEFR.  Bydd adnoddau ar draws y pum lefel dysgu wedi'u golygu a'u mireinio'n gyflawn erbyn Gorffennaf 2027.

- Datblygu rhaglen o gyrsiau sy'n cynnwys modelau dysgu amrywiol, gan gynnwys dosbarthiadau wyneb yn wyneb a rhai rhithiol, cyrsiau cyfunol a chyrsiau hunan-astudio. Byddwn hefyd yn parhau i deilwra cynnwys ein cyrsiau a'u cyd-destunoli i'r gynulleidfa.

- Parhau i gynllunio darpariaeth sy'n hyblyg o ran lleoliadau, amser a hyd cyrsiau, gyda'r nod o roi cyfleoedd Dysgu Cymraeg ystyrlon i gynulleidfaoedd amrywiol.

- Annog dysgwyr i barhau â'u dysgu, gan arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus. 'Dyn ni'n annog dysgwyr ar bob lefel i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt yn hyderus, ac yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ar bob lefel i fwynhau defnyddio eu Cymraeg.

- Seilio ein gweithgareddau ar bolisïau a blaenoriaethau cynllunio ieithyddol, gan gynnwys Cymraeg 2050, Mesur y Gymraeg a Deddf y Gymraeg ac Addysg ac argymhellion y Comisiwn Cymunedau. Bydd y blaenoriaethau yn cynnwys cynlluniau Dysgu Cymraeg penodol ar gyfer y sector Chwaraeon, Iechyd a Gofal a Gweithlu Addysg (Statudol ac Anstatudol).

Technoleg Ddigidol

- Gwneud defnydd llawn o'r platfform digidol unigryw ac arloesol sydd wedi ei ddatblygu ar gyfer y sector, er mwyn rhoi mynediad llawn i ddysgwyr a thiwtoriaid i wybodaeth ac adnoddau.

- Arloesi'n ddigidol gan ddefnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial a chydweithio ag arbenigwyr yn y maes i gefnogi ein gwaith Dysgu Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys cynnal ap i gyflwyno geirfa a chofnodi defnydd o'r Gymraeg, a darparu adnoddau i gynorthwyo unigolion a gweithleoedd i adnabod lefelau ar hyd y continwwm iaith.

Datblygu'r gweithlu Dysgu Cymraeg.

- Cwblhau Cynllun Datblygu'r Gweithlu Dysgu Cymraeg er mwyn cydnabod eu rôl hollbwysig. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen barhaus o ddatblygiad proffesiynol drwy gynllun Academi Dysgu Cymraeg y Ganolfan, gan gynnwys cynnal Cymhwyster Proffesiynol ar Lefel Pedwar CGC.

- Datblygu rhaglen hyfforddiant i ddenu a hyfforddi darpar diwtoriaid, ac uwch sgilio tiwtoriaid sy'n newydd i'r sector Dysgu Cymraeg.

Darparu cyfleoedd dysgu sy'n hygyrch ac yn groesawgar.

- Cwblhau nodau Cynllun Gwrth-hiliol y Ganolfan, gan gynyddu'r niferoedd o ddysgwyr mwyafrif byd-eang sy'n manteisio ar y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg.

- Datblygu Cwrs WSOL, sy'n adeiladu ar gynllun Croeso i Bawb y Ganolfan, er mwyn sicrhau cyfleoedd Dysgu Cymraeg i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

**4.4 Defnyddio – annog defnydd o'r Gymraeg**

Mae'r Ganolfan wedi rhoi llawer o bwyslais ar gynyddu ac ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr a siaradwyr newydd i ddefnyddio'u Cymraeg, gan gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd. Bydd y Ganolfan yn parhau â'i chynlluniau Codi Hyder arbenigol, i helpu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg i fagu hyder i ddefnyddio'r iaith sydd ganddynt yn hyderus, mewn nifer o gyd-destunau. Mae'r gwaith yma hefyd yn cynnwys cynlluniau i groesawu pobl yn ôl at yr iaith, gan dargedu siaradwyr Cymraeg sydd wedi colli hyder i'w defnyddio.

Byddwn yn cyflawni'r amcan strategol hwn drwy'r camau gweithredu canlynol:

- Parhau i gynnal rhaglen Dysgu Cymraeg gynhwysfawr wyneb yn wyneb ac yn rhithiol mewn cymunedau, gan sicrhau bod pawb yn cael eu croesawu.

- Parhau i ddatblygu ein rhaglen Dysgu Cymraeg i weithluoedd, gan flaenoriaethu sectorau allweddol. Bydd blaenoriaethau'r flwyddyn yn cynnwys:
  -Cydweithio â phartneriaid i sicrhau cefnogaeth i gyflogwyr i gynyddu defnydd o'r Gymraeg
  -Cynnal cynlluniau sectorol penodol gan gynnwys, Iechyd a Gofal, a Chwaraeon.
  - Arwain rhaglen newydd o gefnogaeth Dysgu Cymraeg a Chodi Hyder ar gyfer y Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar, a Chwarae.

- Dal ati i gefnogi Polisi Trosglwyddo Iaith Llywodraeth Cymru drwy ddatblygu mentrau a chyfleoedd amrywiol i gynorthwyo rhieni i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

- Ymestyn ein cynllun Codi Hyder i sicrhau bod cyfleoedd i groesawu siaradwyr di-hyder yn ôl at y Gymraeg, a hynny yn y gymuned, mewn gweithleoedd, pobl ifanc a theuluoedd.

- Ymateb i'r galw cynyddol am gyrsiau preswyl mewn partneriaeth â'n darparwr, Nant Gwrtheyrn.

- Parhau i gynnal rhaglen Dysgu Cymraeg genedlaethol ar gyfer y Gweithlu Addysg Genedlaethol, gan gydweithio ag Awdurdodau Lleol i ymateb i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Bydd y rhaglen yn cynnwys ystod o hyfforddiant a chefnogaeth i ddarpar athrawon, athrawon, cynorthwywyr dosbarth a'r gweithlu cefnogi mewn ysgolion.

- Adolygu ac archwilio ystod o strategaethau posib i ymestyn ein gwaith i gefnogi'r Gweithlu Addysg, gan gynnwys cefnogi'r gweithlu i drosglwyddo'r Gymraeg i'w disgyblion, a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion. Byddwn yn cryfhau ymhellach methodolegau addysgu y Gweithlu Addysg sy'n ymgysylltu a'n rhaglenni Dysgu Cymraeg er mwyn arwain at cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion a dylanwadu ar y profiadau dysgu i blant a phobl ifanc.

- Parhau i ddatblygu ein rhaglen Dysgu Cymraeg ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys dysgwyr 16 – 25 oed sydd mewn addysg neu addysg drydyddol. Bydd y rhaglen yn cynnwys cydweithio agos gyda Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach i fewnosod rhaglenni Dysgu Cymraeg mewn cyrsiau galwedigaethol ac is-raddedig.

- Parhau i gynnal cynllun 'Siarad' i baru dysgwyr a siaradwyr Cymraeg er mwyn cefnogi dysgwyr i ddod yn fwy hyderus i ddefnyddio eu Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys ymestyn y cynllun i weithluoedd amrywiol.

- Parhau i gydweithio ag ystod o bartneriaid i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg gan wneud hynny'n strategol ac yn gydlynus.

**Diweddglo**

Wrth baratoi at flwyddyn olaf weithredol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hoffwn ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiannau'r degawd diwethaf. Mae'n galonogol nodi ein bod ni wedi llwyddo i gynyddu'n sylweddol nifer y dysgwyr, denu cynulleidfaoedd newydd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg a sefydlu'r Ganolfan fel Cynlluniwr Ieithyddol sy'n ganolog i fentrau i normaleiddio defnydd o'r iaith.

Mae llwyddiannau'r deg mlynedd diwethaf yn destun balchder i'r sector Dysgu Cymraeg cyfan. Edrychwn ymlaen at baratoi ar gyfer y bennod nesaf ac at barhau i adeiladu ar y seilwaith cadarn a phroffesiynol a osodwyd dan arweiniad y Ganolfan.